Pigion eraill

More highlights

Ar ben y clogwyni. Buom lawr yn ardal Niwgwl, Sir Benfro i wneud asesiad o flaen datblygiad anarferol iawn dros yr haf. Roedd safle hen dy unig iawn wedi cael ei glirio i ffwrdd cyn adeiladu tŷ crand newydd yn agos at y clogwyni, gyda golygfeydd rhagorol dros Bae San Ffraid. Darganfuom ddarn o grochenwaith oedd yn dyddio i'r cyfnod Ôl-ganoloesol cynnar, prawf bod pobl wedi byw ar y safle ers dros 300 mlynedd cyn y 20fed ganrif.

On the clifftop. We visited the Newgale area of Pembrokeshire over the summer to do an assessment on a very unusual development. The site of an old, solitary house was being cleared in advance of the development of a much more substantial new house, close to the cliffs and with superb views over St. Bride's Bay. We found a piece of early Post Medieval pottery which showed the site had been used for over 300 years before the 20th century.

Argae cronlyn Gwaith Haearn Abaty Nedd

Pan sefydlwyd Gwaith Haearn Abaty Nedd yn y 1840au, dwr oedd yn gyrru'r peirannau. Crëwyd llyn yng Nghwm Clydach, er mwyn cronni dŵr at ddefnydd y gwaith a rheoli llif yr Afon Clydach. Mae argae'r llyn hwnnw yn sefyll hyd heddiw. Gwnaethom astudiaeth ar y strwythur eleni o flaen prosiect gan Gyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith cadw a chynnal ar y strwythur. Dyma ddarn diddorol o hanes diwydiannol de Cymru sydd wedi goroesi.

Neath Abbey Ironworks Reservoir Dam

When Neath Abbey Ironworks was founded in the 1840s, water provided power to the machinery. A reservoir was created in Cwm Clydach to collect water and control the flow of the Clydach river. The dam of that lake still stands. We undertook an assessment in advance of a maintenance work by Natural Resources Wales. This is an interesting piece of south Wales' industrial history which has survived.

Penybont ar Ogwr. Mae'r Castell Newydd, Penybont yn un o gestyll lleiaf adnabyddus ein gwlad. Buom lawr yna yn ddiweddar iawn i wneud asesiad ar ddatblygiad yn yr un ardal, ar ddiwrnod gwlyb iawn. Syndod oedd gweld y castell mewn cyflwr cymharol dda ac yn agored i'r cyhoedd. Ar ddiwrnod gwell, byddai golygfa dda wedi bod gyda ni dros gae rygbi Penybont, Maes y Bragdy, sydd wrth droed y bryn, o dan y castell.

Bridgend. Newcastle, Bridgend is probably among our nation's least known castles. We had a chance to see it recently on a very wet day as we were doing an assessment on a nearby development. We were surprised to find that it was in pretty good condition and open to the public. On a better day we would have had a very good view of Brigend's rugby pitch, the Brewery Field, which is at the foot of the hill, below the castle.

Plas Newydd, Llangollen. Mae'r plas hanesyddol yma yn cael ei gysylltu â'r enwog Boneddigesau Llangollen oedd yn byw yma ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Gwnaethom asesiad ar effaith datblygiad gerllaw ar y plas. Ymhlith y pethau diddorol ddaeth allan o'r asesiad oedd y ffaith mai perchnogion diweddarach oedd wedi creu'r adeilad sydd i'w gweld yno heddiw a bod rhan helaeth o blas y 19eg ganrif wedi cael ei ddymchwel yn ystod y 20fed ganrif!

Plas Newydd, Llangollen. This historic mansion is associated with the renowned Ladies of Llangollen, who lived here in the late 18th and early 19th centuries. We undertook an impact assessment relating to a nearby development. Amongst the interesting things we found out was the fact that the house we see today was the creation of later owners and that much of the 19th century mansion was demolished in the 20th century!

trysor NADOLIG 2018 CHRISTMAS 2018

Nadolig
Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb!

Mae blwyddyn arall yn tynnu at ei diwedd a'r amser wedi dod i fwrw golwg 'nôl dros y 12 mis sydd wedi pasio oddi ar ein cylchlythyr diwethaf.

Blwyddyn o ddod i arfer â llwyth o ganllawiau a deddfau newydd oedd hon yng Nghymru - tasg sydd wedi gofyn am gryn ymdrech. Mae Trysor wedi cario ymlaen yn dawel bach, yn y cefndir, yn mwynhau'r haf gorau a welsom erioed, o Fis Mai nes Mis Awst. Uchafbwynt ein blwyddyn oedd cael lwmpyn o slag haearn a dyddiad radiocarbon o'r Oesoedd Tywyll allan o ffos yn Sir Drefaldwyn.

Tra bod pethau bach syml fel hynny yn ein diddanu ni, mae Brexit wedi perchnogi'r penawdau, dreigiau wedi nythu yng nghestyll enwocaf Cymru a sibrydion wedi codi'n ddiweddar am ddarganfyddiad cerbyd rhyfel Celtaidd yng nghanol cae wedi siglo'r seiliau yn Sir Benfro, ond rydym yn siŵr o glywed mwy am y stori hon yn ystod 2019.

Merry Christmas and a Happy New Year to all!

Another year heads to its conclusion and we can again look back over the 12 months since our last newsletter.

This has been a year of getting used to new guidelines and legislation in Wales, which has taken some effort. Trysor has chipped away quietly in the background, and enjoyed the best summer ever seen, from May to July. The highlight of our year was probably getting a lump of iron slag and a Dark Age radiocarbon date out of a ditch in Montgomeryshire.

While such simple things have kept us happy, Brexit has claimed all the headlines, dragons have nested in Wales' finest castles and recent rumours have been reported of a Celtic chariot burial being found in a field, stirring excitement in Pembrokeshire, and we will surely hear much more about that during 2019.

Darganfod llwyfan ar y Mulfran.
Discovering a platform on Mulfran

Yr olygfa o'r bryniau...

Treulion ni ychydig iawn iawn o amser yn yr uwchdiroedd eleni - profiad rhyfedd iawn i ni. Ond fe gawsom gyfle i ymweld â grŵp o lwyfannau canoloesol yn Sir Faesyfed yn y gwanwyn, a chyfle hefyd i ymuno â grŵp o bobl arbennig ym Mlaenau Gwent, sef **Cymdeithas Hanes ac Archaeoleg Aberystruth** i roi cyfres o sesiynau hyfforddi a diwrnod o waith maes ar fynydd Mulfran.

A view from the hills...

We spent surprising little time in the hills this year - unusually for us. But we did get a chance to visit an excellent group of medieval platforms in upland Radnorshire earlier in the year, and also worked with the excellent folk of the **Aberystruth History and Archaeology Society** in Blaenau Gwent, to deliver a series of training sessions and spend a day in the field on Mulfran mountain.

Amser hyn y llynedd, gwnaethom adduned Blwyddyn Newydd ar gyfer 2018... i ddarganfod rhywbeth Rhufeinig. Methiant llwyr oedd y syniad yna, ond unwaith eto llwyddon ni deithio o gwmpas cryn dipyn ac ymweld â safleoedd hynod ddiddorol. Dyma ragor o'n huchafbwyntiau!

This time last year we made a New Year's Resolution... to discover something Roman during 2018. Well, we failed on that score, but we did once again manage to get around a lot of places and see some fascinating sites. Here are some more of our highlights!

De: Ceffylau ar wrthglawdd bryngaer Castell Mawr, Llanegryn, Gwynedd sy'n dyddio i Oes yr Haearn.
Right: Horses on the rampart of the Castell Mawr Iron Age hillfort, Llanegryn, Gwynedd.

Uchod a De: Llansantffraid ym Mechain, Powys. Dyfalbarhau ar ôl llifogydd a chanfod ffos sy'n dyddio i'r 6ed ganrif OC.
Above and Right: Llansantffraid ym Mechain, Powys. Persistence after flooding brought the discovery of a ditch dating to the 6th century AD.

Chwith: Yr olaf o gytiau'r gweithwyr wnaeth adeiladu argaeau Cwm Elan dros ganrif yn ôl. Yn ddiweddarach, gafodd ei droi i mewn i ffermdy yng Nghwm Clyd, Dyffryn Claerwen, Powys.
Left: The last of the huts used by the men who built the Elan Valley dams over a century ago, later reused as a farmhouse at Cwm Clyd Farm, Claerwen.



De: Fferm Cwm Clyd, Dyffryn Claerwen, Powys. Gwnaethom gofnod ffotograffig o'r hen adeiladau cyn iddynt gael eu hadnewyddu.
Right: Cwm Clyd Farm, Claerwen, Powys. We undertook a photographic survey of the old buildings before they were converted.

Chwith: Cloddio safle bwythyn sy'n dyddio i'r 19eg ganrif ychydig y tu allan i fynwent Robeston Wathen, Sir Benfro.
Left: Excavating the remains of a 19th century cottage just outside the churchyard at Robeston Wathen, Pembrokeshire.

Chwith: Hen fwynglawdd Cwm Elan. Mae'r efail wedi cael to newydd a phwll y rhod ddŵr yn y blaendir wedi cael ei atgyweirio wrth i Ymddiriedolaeth Cwm Elan geisio achub olion yr hen waith.
Left: The old Cwm Elan lead mine. The smithy has a new roof and the wheelpit in the foreground has been repaired as the Cwm Elan Trust endeavour to preserve the ruins of the old mine.

De: Yr hen eglwys, Capel Gwynfe, Sir Gaerfyrddin. Briff gwylio ar waith o fewn y fynwent. Bydd yr hen eglwys yn cael ei ail-wneud fel tŷ annedd cyn hir.
Left: The old church at Capel Gwynfe, Carmarthenshire. Watching brief on works inside the churchyard. The old church will soon be converted into a dwelling.

Chwith: Gwastatiroedd Swydd Caerlŷr. Ein taith fwyaf dwyreiniol, hyd yn hyn, i wneud asesiad mewn cysylltiad ag uned dofednod arfaethedig.
Left: The flatlands of Leicestershire. Our furthest trip eastwards, to date, to do an assessment for a proposed poultry unit.

De: Camlas y Shropshire Union yn Swydd Amwythig. Taith arall dros y ffin - y tro yma mewn cysylltiad â datblygiad gwyliau arfaethedig.
Right: The Shropshire Union Canal. Another trip over the border - this time in connection with a proposed holiday development.

Chwith: Hen westy Wynnstay Arms, Llangollen, Powys. Asesiad cyn i'r lle gael ei ail-wneud a'i ail-enwi. Gwesty'r Tri Eryr - Three Eagles yw'r enw bellach - wedi'i ysbrydoli gan y tri eryr ar arfbais teulu Williams-Wynn o Wynnstay.
Left: The old Wynnstay Arms hotel in Llangollen, Powys. An assessment made before it was refurbished and renamed. Its now the Three Eagles - inspired by the three eagles on the coat of arms of the Williams-Wynns of Wynnstay.



De: Rydym yn falch iawn o gael cyfle i gydweithio gyda Chymdeithas Treftadaeth ac Iaith Ystradgynlais eto i gynhyrchu taflen newydd mewn cyfres ar arwyr lleol. Adelina Patti, Craig y Nos, yw testun y daflen ddiweddaraf, i nodi canmlwyddiant ei marwolaeth.
Right: We are very proud to have had the chance to work with the Ystradgynlais Heritage and Language Society again to produce a new leaflet in a series about local heroes. Adelina Patti, Craig y Nos is the subject, commemorating the centenary of her death.

Chwith: Y groglen canoloesol y tu fewn i eglwys Santes Ellyw, Llanellyw, Talgarth, Powys. Briff gwylio ar atgyweiriadau i wal y fynwent.
Left: The medieval rood screen inside St. Ellyw,'s Llanelieu, Talgarth, Powys. Watching brief on the rebuilding of the churchyard wall.